**<u>YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU</u>**

**Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett, D.B.E.**

---

# MODIWL 5 – DATGANIAD LLYWODRAETH CYMRU

---

1. Dyma'r cyflwyniad ysgrifenedig ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf modiwl 5 ar 6 Chwefror 2024.

2. Rydym yn ddiolchgar i'r Cyfreithiwr i'r Ymchwiliad a'r Cwnsler i'r Ymchwiliad am eu nodiadau a ddosbarthwyd cyn y gwrandawiad rhagarweiniol. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ei dynodiad fel cyfranogwr craidd ar gyfer modiwl 5 ac yn ailddatgan ei hymrwymiad llawn i'r Ymchwiliad. Bydd yn parhau i ddarparu'r cydweithrediad llawnaf posibl, fel bod y penderfyniadau a gymerodd, a'r rhai a gymerwyd gan eraill, mewn ymateb i'r pandemig, yn destun craffu trylwyr. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei hymatebion cychwynnol i geisiadau'r Ymchwiliad am wybodaeth ragarweiniol.

3. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi caffael yng Nghymru. Mae'n cyhoeddi Nodiadau Polisi Caffael Cymru, sy'n darparu canllawiau i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth gaffael.

4. Yn ystod y cyfnod a archwilir gan yr Ymchwiliad, gweithiodd Llywodraeth Cymru hefyd gyda Swyddfa Gabinet y DU i ddatblygu Nodiadau Polisi Caffael y gellid eu mabwysiadu i ymateb i argyfwng Covid. Caiff Nodiadau Polisi Caffael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd gan Swyddfa Gabinet y DU ac maent yn darparu arweiniad ar arferion gorau ym maes caffael yn y sector cyhoeddus.

5. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda chyrff y GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol mewn cysylltiad â darpariaethau cytundebol ar gyfer caffael a dosbarthu offer gofal iechyd allweddol yn ystod cyfnod y pandemig.

6. Mae gweithgarwch caffael y GIG yn cael ei gynnal drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sy'n gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth mewn perthynas â materion caffael cyhoeddus a gododd yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran y cyflenwad a'r galw am gyfarpar diogelu personol, gan helpu i ddiwallu anghenion caffael y GIG drwy sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd rhwng y partïon perthnasol.

7. Gan weithio'n agos gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfarfodydd yn ystod camau cynnar y pandemig i drafod materion fel lefelau stoc, y galw tebygol, dosbarthu'r stoc a oedd ar gael a chaffael cyflenwadau newydd.

8. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu gydag ymchwiliadau'r Ymchwiliad ym modiwl 5.

**Dyddiedig 30 Ionawr 2024**